Rydym yn recriwtio uchafbwyntiau y swydd

Hyfforddwyr Ymarfer Corff Grŵp

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £26.48 yr 1 awr sesiwn
Oriau : Amrywiol
Contract : Cyflenwi / Banc

Am y Swydd

Yma yn HSDd, rydym yn gwneud ymdrech arbennig i gynnig profiadau o'r radd flaenaf i'n Haelodau.Rydym wedi buddsoddi mewn stiwdios o ansawdd uchel, gyda'r offer a'r systemau sain gorau i ddarparu profiadau Ymarfer Grŵp diguro i'n Haelodau a'n Hyfforddwyr.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau, o Feicio Xtreme, i Pilates, Corff Cryf, i ddosbarthiadau hyfforddiant cylch traddodiadol. Rydym bob amser yn chwilio am ddosbarthiadau newydd a chyffrous i'n Haelodau.
Mae ein dosbarthiadau'n hynod o boblogaidd, felly rydym yn awyddus i recriwtio rhagor o Hyfforddwyr Ymarfer Corff Grŵp i ymuno â'n tîm, i greu dosbarthiadau hwyliog ac atyniadol sy'n gwneud i bob aelod deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn gyfforddus ac yn hyderus yn ymarfer y corff.

Mae gennym ddosbarthiadau ar draws bob un o'n safleoedd, felly byddem yn ceisio eich lleoli yn y safle mwyaf priodol i chi (neu sawl safle os hoffech chi!) yr ydych chi'n hapus i deithio yno. Mae dosbarthiadau fel arfer yn para rhwng 45 munud ac awr, yn ddibynnol ar y dosbarth. Os hoffech chi weld y dosbarthiadau sydd ar gael i'n Haelodau ar hyn o bryd, yn ogystal â hyd arferol y dosbarthiadau, ymwelwch â'n hamserlen ddosbarthiadau ar-lein yma https://denbighshireleisure.co.uk/cy/classes-timetable-wel/

Rydym yn chwilio am Hyfforddwyr Ymarfer Corff Grŵp cyffredinol, yn ogystal â rhai sy'n arbenigo mewn maes penodol, megis Ioga, Pilates, Pwysau Tecell, Seiclo Grŵp ac ati. Rhowch wybod i ni beth yw eich arbenigedd pan fyddwch yn ymgeisio.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Hyfforddwyr Ymarfer Corff Grŵp

Amdanoch Chi

Byddwch yn Hyfforddwr Ffitrwydd talentog gydag angerdd am iechyd a ffitrwydd, a phrofiad yn darparu dosbarthiadau y mae pobl yn eu caru.

Mae ein Haelodau a chwsmeriaid yn bwysig iawn i ni, felly rydym yn chwilio am rywun a all esmwytho pobl, ac sydd â dymuniad i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych drwy'r amser. Bydd yn rhaid i chi fedru addasu eich dosbarthiadau i sicrhau fod pawb yn gallu cymryd rhan yn ddiogel ac mewn modd sy'n addas i'w gallu.

Bydd yn rhaid i chi feddu ar gymhwyster priodol sy'n berthnasol i'r maes neu'r math o ddosbarth yr hoffech chi ei ddysgu.

Os nad ydych chi'n gallu ymrwymo i ddosbarthiadau rheolaidd ond rydych yn awyddus i helpu allan gyda dosbarthiadau dysgu o bryd i'w gilydd, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych!

Rydym yn hapus i weithio gyda chi ar sail gyflogedig neu ar sail hunangyflogedig.Os ydych yn awyddus i gadw eich statws hunangyflogedig, cysylltwch â Pobl@hamddensirddinbych.co.uk er mwyn i ni fedru trafod hyn mewn rhagor o fanylder.

Rydym wastad yn barod i dderbyn syniadau newydd, felly os oes gennych chi brofiad mewn dysgu dosbarth nad ydym ni'n ei ddysgu ar hyn o bryd, ac yn meddwl y byddai ein Haelodau'n ei fwynhau, yna byddem wrth ein boddau'n clywed eich syniadau.

Hyfforddwyr Ymarfer Corff Grŵp

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Fel gweithiwr wrth gefn/banc i HSDd, byddai gennych chi hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngol (cyn belled â'ch bod yn gweithio o leiaf 1 shifft bob 3 mis)
- Tâl gwyliau blynyddol am bob mis rydych yn ei weithio
- Gwisg HSDdCyf (yn berthnasol i'r math o ddosbarth)

Gwnewch gais drwy:

ebostio eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk